CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

# Cynllun
# Cydraddoldeb Strategol Ysgol

2024-2028

# Ysgol SARN BACH

2024 - 2028

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gytunwyd gan y llywodraethwyr:**

Llofnodwyd gan y Cadeirydd RM Jones

Dyddiad: 16/10/2023

Cynllun i'w adolygu: 16/10/2024(dyddiad)

# Cynnwys ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)


## 1. Ein cymeriad, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion nodedig

1.1 Gwerthoedd yr ysgol

1.2 Nodweddion ein hysgol

1.3 Prif ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac arfer

1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb

## 2. Cyfrifoldebau

2.1 Corff Llywodraethu

2.2 Uwch Dîm Arweinyddiaeth

2.3 Staff – addysgu ac nad ydynt yn addysgu

## 3. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

3.1 Diben a phroses

3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir

3.3 Ymgysylltu

## 4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

## 5. Amcanion a Chynlluniau Gweithredu

## 6. Cyhoeddi ac adrodd

## 7. Monitro ac Adolygu


## Atodiadau


**Atodiad 1** Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2024-28

**Atodiad 2 Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu'r Ysgol**

**Atodiad 3 Cynllun Mynediad yr Ysgol (defnyddiwch y cynllun cyfredol ar gyfer 2024-28)**


# 1. Ein Cymeriad, Blaenoriaethau ac Amcanion Nodedig

## 1.1 Gwerthoedd yr ysgol

Yn SARN BACH rydym yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau gan yr ysgol, ni waeth beth yw eu hanabledd, hil, rhyw, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Rydym yn ceisio datblygu diwylliant o gynhwysiad ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol i deimlo'n falch o'i hunaniaeth, a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Caiff cyflawniad disgyblion ei fonitro, a byddwn yn defnyddio'r data hwn i gefnogi disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio ac ystrydebau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb. Yn Ysgol SARN BACH credwn fod amrywiaeth yn gryfder y dylid ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n addysgu, ac yn dysgu yma, ac yn ymweld â'r ysgol.

## 1.2 Nodweddion ein hysgol

Lleolir Ysgol Gynradd Sarn Bach ym mhentref Sarn Bach ger Pwllheli yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r ardal leol ynghyd â nifer o bentrefi cyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2

## 1.3 Prif ffrydio cydraddoldeb mewn polisi ac arfer

Yn ogystal â'r camau penodol a amlinellir yn y cynllun hwn, mae'r ysgol yn gweithredu cyfle cyfartal yn ei harfer o ddydd i ddydd yn y ffyrdd canlynol.

Rydym yn ceisio rhoi'r cyfle i bob disgybl lwyddo a chyrraedd y lefel uchaf o gyflawniad personol. I wneud hyn, byddwn yn:

- defnyddio data cyd-destunol i wella'r ffyrdd rydym yn darparu cefnogaeth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion;
- monitro data cyflawniad yn ôl y nodweddion amrywiol a warchodir a chymryd camau mewn perthynas ag unrhyw fylchau;
- ystyried cyflawniad yr holl ddisgyblion wrth gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol a gosod targedau heriol;
- sicrhau cydraddoldeb mynediad i'r holl ddisgyblion a'u paratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas amrywiol;

Yn Ysgol SARN BACH rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod pob plentyn yn derbyn cyfleoedd cyfartal ar gyfer:

- datblygu eu Cymreictod
- datblygu agweddau o barch tuag at eu cyfoedion
- datblygu agweddau sy'n annog disgyblion i wneud eu gorau glas.
- defnyddio deunyddiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth yr ysgol a'r gymuned leol o ran y nodweddion amrywiol a warchodir, heb ystrydebau;
- hyrwyddo agweddau a gwerthoedd a fydd yn herio ymddygiad hiliol a gwahaniaethol arall neu ragfarn;
- darparu cyfleoedd i ddisgyblion werthfawrogi eu diwylliant eu hunain a dathlu amrywiaeth diwylliannau eraill;
- ceisio cynnwys yr holl rieni wrth gefnogi addysg eu plant;

- annog trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth a'r ystafell staff am faterion cydraddoldeb sy'n myfyrio ar ystrydebau cymdeithasol, disgwyliadau a'r effaith ar ddysgu;
- cynnwys dulliau addysgu ac ystafell ddosbarth sy'n briodol i boblogaeth yr ysgol gyfan, sy'n gynhwysol ac yn adlewyrchu ein disgyblion

# 1.4 Pennu ein hamcanion cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb i sefydlu cydraddoldeb i'n holl ddysgwyr, staff, aelodau eraill cymuned yr ysgol a defnyddwyr gwasanaeth, ni waeth beth yw eu hil, rhyw, anabledd, ailbennu rhywedd, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, priodas neu bartneriaeth sifil fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2012.

Diben ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)** yw cyflawni'r dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â 'nodweddion a warchodir', a gwreiddio tegwch a chydraddoldeb yng nghalon cymuned ein hysgol ac ym mhob agwedd ar gynlluniau a pholisïau ein hysgol.

Wrth bennu'r amcanion cydraddoldeb ar gyfer yr ysgol hon, byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i ddyletswydd gyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
2. Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir perthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu; mae hyn yn golygu
   a. dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno
   b. cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl nad ydynt yn ei rhannu
   c. annog pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogaeth gan bobl o'r math yn anghymesur o isel
3. Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir berthnasol a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu

## **Pennir ein CCS ac Amcanion Cydraddoldeb yng ngoleuni'r canlynol**:

- Yr amcanion cydraddoldeb Corfforaethol (atodiad 1);
- barn a fynegwyd gan rhanddeiliaid sydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynllun;
- materion sy'n codi o ganlyniad i ddadansoddi ein data disgyblion e.e. cyrhaeddiad grwpiau disgyblion.

Bydd cyflwyno ein CCS yn cyfrannu at ein holl gamau gweithredu a'n hymrwymiadau i:

- godi safonau;
- lleihau'r bwlch cyrhaeddiad mewn deilliannau i blant a phobl ifanc;
- hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Amlinellir Amcanion Cydraddoldeb yr Ysgol yn **adran 5 ac Atodiad 2**.

# 2. Cyfrifoldebau

## 2.1 Corff Llywodraethu

Mae'r corff llywodraethu wedi nodi ei ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y cynllun hwn, a bydd yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr ysgol yn gwbl gynhwysol i ddisgyblion, ac yn ymateb i'w hanghenion, yn seiliedig ar y nodweddion a warchodir amrywiol. Mae'r Corff Llywodraethu yn:

- ceisio sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl wrth iddynt wneud cais am swyddi yn ein hysgol
- cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi mynediad i bobl ag anableddau, a hefyd yn ymdrechu i wneud cyfathrebu mor gynhwysol â phosib i rieni, gofalwyr a disgyblion
- sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw blentyn pan fydd yn ein hysgol

Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd adrodd, bydd y corff llywodraethu'n adrodd ar gynnydd y CCS bob blwyddyn, fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol i rieni.

## 2.2 Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)

Mae'r UDA yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn dileu gwahaniaethu drwy:

- roi CCS yr ysgol ar waith, gyda chefnogaeth y Corff Llywodraethu wrth wneud hynny;
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y ddeddf ac wedi'u hysbysu'n llawn am CCS ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol;
- sicrhau bod yr holl baneli apwyntiadau'n ystyried y cynllun hwn, fel na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un o ran cyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant;
- hyrwyddo egwyddor cyfle cyfartal wrth ddatblygu'r cwricwlwm, a hyrwyddo parch at bobl eraill a chyfle cyfartal i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol;
- trin holl achosion triniaeth annheg ac unrhyw achosion o fwlio neu wahaniaethu, gan gynnwys digwyddiadau hiliol, yn ôl polisïau'r awdurdod a'r ysgol
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o hyn

## 2.3 Staff – addysgu ac nad ydynt yn addysgu

Mae'r ysgol yn ystyried cydraddoldeb i bawb yn gyfrifoldeb i bawb. Mae pob aelod o staff yn cyfrannu at sicrhau bod ein hysgol yn gymuned deg, gyfiawn a chydlynol drwy:

- sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu trin yn deg, yn gyfartal a chyda pharch, a bydd yn cynnal ymwybyddiaeth o CCS yr ysgol;
- ymdrechu i ddarparu deunydd a fydd yn rhoi delweddau cadarnhaol yn seiliedig ar nodweddion a warchodir ac yn herio delweddau ystrydebol;
- herio unrhyw achosion o ragfarn, hiliaeth neu homoffobia, a chofnodi unrhyw ddigwyddiadau difrifol fel y rhagnodir ym mholisïau gwrth fwlïo'r ALl a'r ysgol e.e. adrodd am ddigwyddiadau hiliol;
- cefnogi gwaith staff atodol a chefnogi a'u hannog i ymyrryd mewn ffordd gadarnhaol yn erbyn unrhyw ddigwyddiadau gwahaniaethol

# 3. Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu

## 3.1 Diben a phroses

Mae casglu gwybodaeth yn hanfodol i'n cefnogi i benderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd i wella cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yng nghymuned yr ysgol. Yn dilyn hyn, mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i adolygu ein perfformiad, felly mae'n rhaid iddi fod yn ddigon manwl i'n galluogi i fesur sut rydym yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i wneud asesiad effaith manwl gywir a nodi pa rai o amcanion yr ysgol a gyflawnwyd, a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well.

Mae ymgysylltu hefyd yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd ynghylch cynrychiolaeth grwpiau gwahanol. Rydym yn ceisio gwneud hyn mor llawn â phosib wrth gydnabod materion sensitifrwydd o ran y gwahanol nodweddion a warchodir. Rydym yn cymryd camau penodol i sicrhau bod plant a phobl ifanc anabl, rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn ôl eu hawl. Y rheswm pam mae'r cynnydd hwn yn bwysig yw er mwyn deall holl amrywiaeth anghenion cymuned yr ysgol.

## 3.2 Mathau o wybodaeth a gesglir

Mae'r amrywiaeth eang o wybodaeth a gesglir i gefnogi ein cynllunio a chamau i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yn cynnwys y canlynol:

- dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd gan ddisgyblion, rhieni/gofalwyr, staff, llywodraethwyr a grwpiau cymunedol yn dilyn dosbarthu holiadur barn rheini. Nid yw'r cwestiynau a gynhwysir yn yr holiadur yn amlygu nodweddion a warchodir penodol, ond maent yn ceisio barn gyffredinol rhanddeiliaid;
- nodi plant a phobl ifanc, rhieni, gofalwyr, staff a defnyddwyr eraill yr ysgol sy'n cynrychioli'r nodweddion a warchodir gwahanol, os yw'n bosib ac yn briodol. Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu a monitro'r cynllun. Gwneir ymdrechion cynhwysfawr a sensitif i gasglu gwybodaeth gywir a bodloni gofynion diogelu data, yn ogystal â'n dyletswydd i sicrhau gwybodaeth gywir sy'n ymwneud ag ethnigrwydd a mamiaith;
- cyrhaeddiad disgyblion a data cynnydd sy'n ymwneud â grwpiau gwahanol;
- ceisio barn plant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn ffordd sy'n gweld gwerth i'w cyfraniad;
- gwybodaeth am sut mae grwpiau gwahanol yn cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan a sut maent yn gwneud dewisiadau rhwng y dewis o bynciau;
- dewisiadau chwaraeon a gweithgareddau fesul grŵp;
- gweithgareddau cyfoethogi fesul grŵp
- dadansoddi data gwaharddiadau wedi'i ddadansoddi fesul grŵp;
- cofnodion bwlio ac aflonyddu ar sail unrhyw fater cydraddoldeb
- data ar recriwtio, datblygu a chadw gweithwyr;
- canlyniadau gweithgareddau sy'n hyrwyddo ymgysylltu cymunedol a chydlyniant cymunedol;
- canlyniadau camau a gymerwyd i sicrhau cynnwys rhieni ac eraill y nodwyd ei bod yn anodd ymgysylltu â hwy;

## 3.3 Ymgysylltu

Mae'r ysgol yn cynnwys rhanddeiliaid gan gynnwys plant a phobl ifanc, staff, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a phobl eraill sy'n defnyddio'r ysgol o ran dyletswyddau cydraddoldeb. Rydym yn ystyried dulliau cyfathrebu o ddewis y rhai rydym yn ymgynghori â hwy e.e. deunydd a gyfieithwyd neu gyfleusterau dehongli ar gyfer pobl anabl neu'r sawl y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt neu sydd newydd gyrraedd y wlad hon.

Ystyrir barn rhanddeiliaid a grwpiau eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb o ddifri wrth i ni bennu blaenoriaethau. Mae'r ysgol yn trafod yn gyson gyda'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, y disgyblion , Llywodraethwyr a'r holl rieni / gwarcheidwaid sy'n rhanddeiliaid yng nghymuned yr ysgol.

# 4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae asesiad effaith yn cyfeirio at adolygu'r holl gynlluniau a pholisïau presennol ac arfaethedig er mwyn ein helpu i weithredu i hyrwyddo cydraddoldeb ac i sicrhau nad yw unrhyw berson o dan anfantais o ganlyniad i weithgareddau'r ysgol oherwydd gwahaniaethu. Mae asesiadau effaith yn broses barhaus i sicrhau bod cynlluniau a pholisïau'r ysgol yn cael eu datblygu mewn ffordd gynhwysol a theg.

Fel rhan o gydymffurfio'r ysgol hon â dyletswyddau penodol y Ddeddf, byddwn yn parhau i gyflawni asesiad effaith o bob polisi a chynllun newydd cyn ei roi ar waith. Yn yr un modd, byddwn yn cyflawni asesiad effaith o'n polisïau a'n cynlluniau presennol pryd bynnag y cânt eu hadolygu. Yn y modd hwn, caiff asesiadau effaith eu cynnwys yn nhrefn adolygu a diwygio pob polisi'r ysgol.

Lle mae asesiadau effaith wedi'u cyflawni, byddant yn dylanwadu ar newidiadau i bolisi ac adolygiad y CCS ei hun.

# 5. Amcanion a Chynlluniau Gweithredu

Ein Hamcanion Cydraddoldeb dewisedig yw:

- **Casglu, dadansoddi a gweithredu ar ddata yn ymwneud ag achosion o fwlio.**
- **Dileu rhwystrau at addysg a gweithredu ystod o ymyraethau Iechyd Meddwl a Llesiant er mwyn cefnogi dysgwyr, beth bynnag eu cefndir a nodweddion gwarchodedig.**
- **Adnabod, Monitro a Gweithredu i wella presenoldeb a chyrhaeddiad grwpiau amrywiol o ddisgyblion.**
- **Sicrhau gweithdrefnau effeithiol o ganfod a gweithredu ar lais y disgybl o fewn rhediad dyddiol yr Ysgol, beth bynnag ei nodweddion gwarchodedig a'i anghenion.**

Mae gennym gynlluniau gweithredu sy'n cynnwys yr holl nodweddion a warchodir perthnasol (Atodiad 2). Mae'r rhain yn disgrifio sut rydym yn cymryd camau i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

Mae ein Cynlluniau Gweithredu wedi'u croesgyfeirio â yn y Cynllun Gwella Ysgol sy'n sicrhau eu bod yn cael eu gwirio, eu monitro a'u gwerthuso'n drefnus.

Mae'r cynlluniau gweithredu'n dangos:

- amcanion a chamau gweithredu penodol
- effaith ddisgwyliedig a dangosyddion cyflawniad (meini prawf)
- amserlenni clir

- gan bwy y mae'r cyfrifoldeb arweiniol
- goblygiadau o ran adnoddau
- dyddiadau penodol ar gyfer asesiad effaith ac adolygiad.

Mae'r ysgol yn gwerthuso effeithiolrwydd y CCS yn rheolaidd, drwy'r corff llywodraethu a chydag Estyn pan gaiff yr ysgol ei harolygu.

# 6. Cyhoeddi ac adrodd

Mae'r ysgol yn darparu copi o'i CCS a'i chynllun gweithredu i gyflawni ei hamcanion cydraddoldeb mewn amrywiaeth o fformatau ac yn sicrhau ei fod ar gael i rieni/gofalwyr ac eraill, gan gynnwys y sawl y nodir ei bod yn anodd ymgysylltu â hwy. Mae prosbectws yr ysgol yn cynnwys cyfeiriad at y CCS a'r gwerthoedd sy'n sail iddo.

Mae'r ysgol yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed ar y cynlluniau gweithredu ac effaith y CCS ei hun ar ethos yr ysgol ac arfer yn yr ysgol. Cyflawnir hyn fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.

Caiff yr holl ddata a gesglir ei ddefnyddio at ddibenion dadansoddi tueddiadau', fesul nodwedd a warchodir, o ran perfformiad, defnyddio gwasanaethau a gynigir gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol a'u boddhad ohonynt. Caiff gwybodaeth o'r fath ei storio ar wahân i wybodaeth bersonol sy'n nodi'r unigolyn. Er mwyn amddiffyn hunaniaeth yr unigolion pan gyhoeddir gwybodaeth am dueddiadau, ni chyhoeddir unrhyw gyfrif sy'n cynnwys llai na 5 unigolyn.

# 7. Monitro ac Adolygu

Fel rhan o'n cyfrifoldeb am fonitro'r CCS, rydym yn ymrwymo i:

- ailedrych ar yr wybodaeth a'r data a ddefnyddiwyd i nodi blaenoriaethau ar gyfer y CCS a'r cynlluniau gweithredu, a'i ddadansoddi. Mae hyn yn cynnwys defnyddio trosolwg o'r canlyniadau;
- defnyddio'r asesiadau effaith i sicrhau bod y camau gweithredu a gymerwyd yn cael effaith gadarnhaol ar draws yr holl nodweddion a warchodir, bod hyrwyddo cydraddoldeb yn ganolog i gynllunio'r ysgol a bod gwahaniaethu'n cael ei ddileu'n effeithiol.

Mae adolygu'r CCS yn cyfeirio'r gwaith o'i ddiwygio, pennu blaenoriaethau newydd a chynlluniau gweithredu. Mae'r broses hon yn parhau i:

- gynnwys amrywiaeth llawn o rhanddeiliaid;
- bod yn seiliedig ar dystiolaeth – defnyddio gwybodaeth a data mae'r ysgol wedi'u casglu a'u dadansoddi;
- defnyddio'r dystiolaeth i gynnal asesiad effaith manwl gywir a fydd yn cyfeirio blaenoriaethau

Byddwn yn cyflawni adolygiad o'n CCS yn flynyddol.

# YSGOL SARN BACH

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 - 2028

## Atodiadau

**Atodiad 1: Amcanion Cydraddoldeb Corfforaethol**

**Atodiad 2: Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu'r Ysgol**

**Atodiad 3: Cynllun Mynediad yr Ysgol (defnyddiwch y cynllun cyfredol ar gyfer 2024-28)**

| AMCAN CYDRADDOLDEB 1: Casglu, dadansoddi a gweithredu ar ddata yn ymwneud ag achosion o fwlio a throseddau casineb | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **YMCHWIL:** Taflenni ffeithiau fesul parth \| EHRC (equalityhumanrights.com) | | | | | |
| **PRIODWEDDAU A DDIOGELIR/MATERION ERAILL SY'N YMWNEUD A CHYDRADDOLDEB A GWMPESIR**<br>Mae'r amcan yma yn cwmpasu holl briodweddau a ddiogelir | | | | | |
| **Cysylltiadau â Strategaethau a Chynlluniau eraill:** Anti-Racist Wales Action Plan (llyw.cymru) Polisi gwrth-fwlio / Cynllun datblygu Ysgol | | | | | |
| **RHANDDEILIAID:** disgyblion, Staff, Rhieni, Llywodraethwyr | | | | | |
| **GWEITHREDU** | **CYFRIFOLDEB** | **AMSERLEN** | **CANLYNIAD** | **Adnoddau** | **Dyddiad Adolygu** |
| • Gweithredu canllawiau statudol ar gyfer Cyrff Llywodraethu ysgolion a gynhelir a sicrhau ymwybyddiaeth holl rhanddeiliaid yr ysgol o bolisi a gweithdrefnau gwrth fwlio. | Llywodraethwyr, Pennaeth / UDRh | Medi 2024 | Ymwybyddiaeth clir gan holl rhanddeiliaid yr ysgol o'r polisi a gweithdrefnau Gwrth fwlio | Polisi Gwrth fwlio | Gwanwyn 2025 |
| • Cofnodi achosion o fwlio / ymddygiad treisgar yn unol â'r polisi gwrth fwlïo'r Ysgol | Pennaeth / UDRh / Swyddog Diogelu | fel mae achos yn codi | Data Bwlio yn cael ei ddadansoddi ac yn dylanwadu ar bolisïau/hyfforddiant | pob hanner tymor ac yn grynodol yn ystod tymor yr haf | |
| • Adrodd yn dymhorol i'r Llywodraethwyr a'r Awdurdod am y niferoedd a thueddiadau o achosion o fwlio | Pennaeth / UDRh/ Llywodraethwyr | tymhorol | Data am achosion o fwlio yn cael ei adrodd a'i werthuso gan y Llywodraethwyr a'r Awdurdod | Cofnodion o achosion | yn dymhorol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **AMCAN CYDRADDOLDEB 2:** Gweithredu ystod o ymyraethau Iechyd Meddwl a Llesiant a dileu rhwystrau at addysg er mwyn chefnogi dysgwyr - beth bynnag eu cefndir a nodweddion gwarchodedig. | | | | | |
| **YMCHWIL:** Taflenni ffeithiau fesul parth \| EHRC (equalityhumanrights.com) | | | | | |
| **PRIODWEDDAU A DDIOGELIR/MATERION ERAILL SY'N YMWNEUD A CHYDRADDOLDEB A GWMPESIR:**<br><br>Mae'r amcan yma yn cwmpasu holl briodweddau a ddiogelir | | | | | |
| **Cysylltiadau â Strategaethau a Chynlluniau eraill:** Anti-Racist Wales Action Plan (llyw.cymru) | | | | | |
| **RHANDDEILIAID:** Disgyblion, Staff, Rhieni, Llywodraethwyr | | | | | |
| **GWEITHREDU** | **CYFRIFOLDEB** | **AMSERLEN** | **CANLYNIAD** | **Adnoddau** | **Dyddiad Adolygu** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| • Gweithredu amcanion Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 wrth arfarnu a gweithredu polisïau'r ysgol<br><br>• Gweithredu egwyddorion Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol<br><br>• Parhau i ddatblygu'r ysgol i fod yn sefydliad sy'n wybodus o drawma er mwyn cefnogi disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial. | Llywodraethwyr, Tîm rheoli, Staff yr ysgol<br><br>Pennaeth, Tîm rheoli, Staff yr ysgol.<br><br>Holl staff yr ysgol | Tachwedd 2024<br><br>yn barhaol<br><br>Medi 2024 | Ymwybyddiaeth glir o'r heriau a'r costau sy'n ynghlwm â mynychu'r ysgol. Polisïau a gweithredu dyddiol yn ystyriol o'r heriau ariannol mae teuluoedd yn eu hwynebu.<br><br>Anghenion wedi eu adnabod a'u mapio ac yn cyfoethogi Cwricwlwm gyfan yn arbennig Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles<br><br>Holl staff yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant i lefel briodol. Gweithredu yr ysgol yn ystyriol i ddisgyblion sydd wedi profi trawma. | Strategaeth Tlodi Plant<br><br>Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol / Adnoddau i gefnogi<br><br>Hyfforddiant | Yn flynyddol<br><br>Fel rhan o brosesau gwerthuso`r ysgol |

| |
|---|
| **AMCAN CYDRADDOLDEB 3 :** Adnabod, monitro a gweithredu i wella presenoldeb a chyrhaeddiad grwpiau amrywiol o ddisgyblion |
| **YMCHWIL:** Taflenni ffeithiau fesul parth \| EHRC (equalityhumanrights.com) |
| **PRIODWEDDAU A DDIOGELIR/MATERION ERAILL SY'N YMWNEUD A CHYDRADDOLDEB A GWMPESIR:**<br>Hil, nodweddion sy'n gallu arwain at anawsterau economaidd-gymdeithasol |
| **Cysylltiadau â Strategaethau a Chynlluniau eraill:** Anti-Racist Wales Action Plan (llyw.cymru), Cynllun Datblygu Ysgol |
| **RHANDDEILIAID:** Disgyblion, Staff, Rhieni, Llywodraethwyr |

| GWEITHREDU | CYFRIFOLDEB | AMSERLEN | CANLYNIAD | Adnoddau | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|---|
| • Defnyddiol systemau data'r ysgol er mwyn adnabod dadansoddi lefelau presenoldeb / absenoldeb. Gweithredu canllawiau Perthyn, Ymgysylltu a chyfranogi (Drafft Llywodraeth) i leihau absenoldebau parhaus (rhai dros 10%)<br>• Adnabod a dansoddi data Presenoldeb grwpiau amrywiol o ddisgyblion er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth a'r ymyraethau addas ar gael iddynt<br>• | Pennaeth, Tîm Rheoli/arweinydd Lles<br><br>Pennaeth / Swyddog Data/ Arweinydd Lles | Yn ddyddiol/wythnosol<br><br>Monitro ysgol gyfan pob hanner tymor ond cyn hynny os oes angen gydag unigolion | Strategaeth Presenoldeb yr ysgol yn weithredol wrth gefnogi disgyblion sydd â lefel absenoldeb uchel.<br><br>Defnydd effeithiol o ddata wrth ddadansoddi grwpiau amrywiol o ddisgyblion i weithredu ymyraethau cefnogi addas. | SIMS<br><br>Adroddiadau monitro presenoldeb | Adolygu`r system monitro presenoldeb yn dymhorol |

| |
|---|
| **AMCAN CYDRADDOLDEB 4 :** Sicrhau gweithdrefnau effeithiol o ganfod a gweithredu ar lais y disgybl, beth bynnag ei nodweddion gwarchodedig a'i anghenion. |
| **YMCHWIL:** Taflenni ffeithiau fesul parth \| EHRC (equalityhumanrights.com) |
| **PRIODWEDDAU A DDIOGELIR/MATERION ERAILL SY'N YMWNEUD A CHYDRADDOLDEB A GWMPESIR**<br>Mae'r amcan yma yn cwmpasu holl briodweddau a ddiogelir |
| **Cysylltiadau â Strategaethau a Chynlluniau eraill:** |

| **RHANDDEILIAID:** Disgyblion, Staff, Rhieni, Llywodraethwyr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWEITHREDU** | **CYFRIFOLDEB** | **AMSERLEN** | **CANLYNIAD** | **Adnoddau** | **Dyddiad Adolygu** |
| • Gweithredu i sicrhau fod llais pob disgybl yn ganolog i bod agwedd o fywyd ysgol drwy sefydlu a gweithredu cynghorau, fforymau, llysgenhadon.<br>• Gwneud defnydd effeithiol o lais y disgybl wrth sefydlu cyfeiriad strategol a gweithredol yr ysgol gan ystyried gofynion pob disgybl.<br>• | Pennaeth / Tîm rheoli / staff/<br>Llywodraethwyr / Tîm rheoli | Sefydlu Cyngor Ysgol ym Mis Medi yn flynyddol a chyfarfodydd yn cael eu cynnal pob hanner tymor | Fforymau a cynghorau ysgol yn weithredol ac yn lwyfan i lais pob disgybl gael ei glywed wrth wneud penderfyniadau.<br>Strwythur y weithredol fel bod llais pob disgybl yn cyfrannu at benderfyniadau ar lefel weithredol, strategol a llywodraethol | Staff i arwain y cyngor<br>Amser i gynnal cyfarfodydd a gweithredu ar benderfyniadau | |